# Mapiau Cymdeithasol Teithiau Cerdded Cynllunwyr Ifanc Cymru

# - Gardd-bentref Rhiwbeina -

Dilynwch daith o amgylch Gardd-bentref Rhiwbeina sy'n tynnu sylw at rai o'r lleoliadau diddorol yn yr ardal yn ogystal â rhai o'r tirnodau pwysig o ran rhinwedd cynllunio.


Mae Cynllunwyr Ifanc Cymru wedi llunio'r daith gerdded hon er mwyn ychwanegu gweithgaredd cymdeithasol at ein harfau yn ystod y pandemig (ac wedi hynny) a'n hannog ni i gyd i fynd allan ac edrych ar y cyfoeth sydd i'w weld mewn rhai o'n hardaloedd lleol.

**Y Print Mân**

Wrth fynd ar y daith gerdded hon, gofalwch am eich diogelwch personol a chadwch o fewn unrhyw gyfyngiadau COVID lleol.

RTPI Young Planners
Royal Town Planning Institute

# Gardd-bentref Rhiwbeina




# Map

1. Plac yn nodi dynodiad ardal Gadwraeth Gardd-bentref Rhiwbeina
2. Heol-Y-Deri
3. Lon Fach
4. Y Groes
5. Syniadau ar gyfer cynllun Gardd-ddinas
6. Adeiladau Rhestredig Gradd II / Cyn gartref yr awdur Kate Roberts (1891 – 1985)
7. Nodweddion Gardd-bentref Rhiwbeina
8. Parc-y-Pentre
9. Pen-Y-Dre

# Taflen Ffeithiau

1. Mewn ardal fach o laswellt ger mynedfa Gorsaf Drenau Rhiwbeina mae carreg â phlac bach arni yn nodi dynodiad Ardal Gadwraeth Gardd-bentref Rhiwbeina (1976) a'i rhinwedd hanesyddol a phensaernïol.
2. Mae'r siopau sydd wedi'u lleoli ar Heol-Y-Deri yn rhan gref o'r Ardd-bentref a'i hunaniaeth leol – gan ddarparu cysylltiadau i gerddwyr trwy nifer o lwybrau troed sy'n rhedeg o Y Groes a Lon Fach.
3. Mae Lon Fach yn ardal i'r de-ddwyrain o Y Groes sy'n cynnwys cyfres o lonydd a llwybrau troed sy'n cysylltu i roi mynediad i gerddwyr i bob rhan o'r Ardd-bentref. Mae canol y lonydd hyn yn canolbwyntio ar y Tŷ Wendy sydd wedi'i leoli yma – adeilad pwysig i gymuned yr Ardd-bentref gan mai dyma ystafell gyfarfod Cymdeithas yr Ardd-bentref.
4. Y Groes yw un o ardaloedd hynaf yr Ardd-bentref ac mae'n ffurfio sgwâr bach. Mae'r ymdeimlad nodweddiadol o fod wedi'ch amgáu sydd wedi'i greu gan y coed a chynllun yr adeiladau yn gwneud hon yn rhan werthfawr o'r Ardd-bentref. Mae'n darparu'r mynegiant gorau o ddefnydd penseiri o fanylion adeiladu i sefydlu lleoliad deniadol ar gyfer y sgwâr a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol.
5. Mae'r Ardd-bentref yn dangos llawer o syniadau yr arloeswyr cynnar mewn dylunio Gardd-ddinasoedd. Yr oedd wedi'i seilio ar uwchgynllun a baratowyd gan Raymond Unwin, un o brif benseiri'r mudiad Gardd-ddinasoedd.
6. Yn 2001 roedd mwyafrif y tai yn yr Ardd-bentref wedi'u dynodi gan Cadw yn Adeiladau Rhestredig Gradd II. Cadw yw Adran Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd hanesyddol. Yn agos at y man hwn byddwch yn gweld plac glas hefyd ar un o'r tai yn nodi mai dyma le bu awdur a chenedlaetholwraig nodedig Cymru, Kate Roberts (1891 – 1985) yn byw rhwng 1929 – 1931. Mae Kate yn enwog am ei straeon byrion yn bennaf ond ysgrifennodd nofelau hefyd.
7. Pennir cymeriad yr Ardd-bentref gan nifer o nodweddion – bob un yn creu ei naws arbennig ei hun. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys: y bensaernïaeth o 'Arddull Gardd-bentref', y toeau sydd wedi'u gwneud o lechi bach naturiol Cymru; simneiau tal; a ffenestri o bren â phaneli gwydr bach. Wrth edrych o'ch cwmpas, dylech chi allu gweld rhai o'r nodweddion hyn.
8. Roedd sawl lawnt a pharc bach wedi'u bwriadu'n wreiddiol yn rhan o gynllun yr Ardd-bentref. Bwriadwyd tir sy'n ffurfio Parc-y-Pentre erbyn hyn yn sgwâr adeiledig llai y byddai tai wedi'u hadeiladu o'i amgylch. Er gwaethaf y newid cynllun hwn, mae'n rhan annatod o'r Ardd-bentref erbyn hyn ac yn gweithredu'n ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol.
9. Mae Pen-Y-Dre yn ymestyn ar hyd ffin ddeheuol yr Ardd-bentref – byddwch yn sylwi bod mwyafrif y ffenestri wedi'u peintio'n wyn, fodd bynnag, dylech chi allu gweld rhai o'r tai sydd â'r paent Gwyrdd Buckingham gwreiddiol gerllaw.